

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mai 2026

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd) (ar gyfer eitemau 1 i 7),
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd) (ar gyfer eitemau 1 i 7);

Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Cadeirydd) (ar gyfer eitemau 8 i 17);
Y Cynghorydd Jackie Lewis (Is-gadeirydd) (ar gyfer eitemau 8 i 17).

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Carwyn Jones, Aled M Jones, Gwilym O Jones, Dyfed Wyn Jones, Euryyn Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen P Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams a Liz Wood

WRTH LAW: Y Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,
Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,
Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Y Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer
Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio
Pennaeth Democratiaeth,
Rheolwr Cyfathrebu (GJ),
Swyddog Pwyllgorau (MEH),
Swyddog Gweddarlledu'r Gwasanaeth Pwyllgorau (FT).

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jeff M Evans, John Ifan Jones, Robert LI Jones ac Arfon Wyn

1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2026 yn gywir.

2. DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Celfyn Furlong ddatgan diddordeb personol yn gysylltiedig ag eitem 7 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr.

Fe wnaeth y Cynghorydd Derek Owen ddatgan diddordeb personol yn gysylltiedig ag eitem 7 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr.

Fe wnaeth y Cynghorydd Alun Roberts ddatgan diddordeb personol yn gysylltiedig ag eitem 7 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr.

Fe wnaeth Mr Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ddatgan diddordeb personol yn gysylltiedig ag eitem 7 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr.

3. CYHOEDDIADAU

Gwnaethpwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

- Diolchodd y Cadeirydd i'r holl wirfoddolwyr ledled yr Ynys sydd wedi bod yn brysur yn codi arian ac yn gwneud trefniadau ar gyfer croesawu'r Eisteddfod yr Urdd i Ynys Môn a gynhelir rhwng 25 a 31 Mai. Dymunodd yn dda i'r holl blant a phobl ifanc fydd yn cystadlu yn ystod yr wythnos.
- Mynegwyd llongyfarchiadau i Mr Derek Evans, Llannerch-y-medd, ar gael ei anrhydeddu gan yr Urdd drwy ennill Tlws John a Ceridwen Hughes. Caiff y tlws ei wobrwyo gan yr Urdd yn flynyddol i wirfoddolwyr arbennig sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru. Bydd seremoni arbennig ar ei gyfer yn Eisteddfod yr Urdd Môn diwedd y mis.
- Mynegodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau hefyd i bawb o'r Ynys fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro ym mis Awst. Bu longyfarch Malachy Owain Edwards, Llanfairpwll a fydd yn cael ei anrhydeddu gyda'r Wisg Werdd yn yr Eisteddfod eleni.
- Dymunodd y Cadeirydd yn dda i bawb o'r Ynys fydd yn cymryd rhan yn y Sioe Frenhinol eleni. Ynys Môn fydd y Sir nawdd i'r Sioe yn 2027 felly bydd yn flwyddyn brysur i'n cymunedau amaethyddol.
- Bu'r Cadeirydd longyfarch RAF y Fali hefyd ar ddathlu 85 mlynedd ers ei sefydlu yn ddiweddar. Nodwyd y dathliadau gyda ymweliad gan y Tywysog William a fu'n hyfforddi ac yn gweithio yn yr orsaf am gyfnod.
- Dymunodd y Cadeirydd yn dda i bawb fydd yn sefyll arholiadau TGAU, Lefel A ac unrhyw gymwysterau eraill eleni. Mae'r Cyngor yn Rhiant Corfforaethol, a dymuniadau arbennig hefyd i'r bobl ifanc hynny sy'n derbyn gofal ar eu arholiadau dros yr wythnosau nesaf.
- Rhoddwyd llongyfarchiadau i Ellie Corcoran o Ynys Môn a enillodd teitl Miss Wales 2026 yn ddiweddar. Mae Ellie yn gwirfoddoli gyda Gyrfa Cymru ac yn

cynorthwyo pobl ifanc. Mae hi hefyd wedi codi mwy na £40,000 ar gyfer elusennau amrywiol.

- Llongyfarchiadau i wasanaeth Môn Actif ar lwyddiant cenedlaethol ar ôl derbyn gwobr 'Building Belonging' yng Ngwobrau Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuencid 2026.
- Llongyfarchiadau i'r Iorwerth Arms, Bryngwran am dderbyn gwobr Arfor am y Fenter Gymdeithasol fwyaf Cymraeg yn y byd.
- Llongyfarchiadau mawr i 101 o bobl ifanc blwyddyn 10 o Ysgolion Uwchradd yr Ynys sydd wedi llwyddo i gwblhau taith efydd Gwobr Dug Caeredin, dros 2 ddiwrnod yn ystod gwyliau'r Pasg. Diolchodd yn arbennig i'r Gwasanaeth Ieuencid am gydlyn ac arwain y teithiau yn ogystal a chefnogaeth gan y tîm awyr agored yn yr Urdd Mae gwasanaeth Ieuencid Ynys Môn yn parhau i fod efo'r nifer uchaf o bobl ifanc yn cyflawni achrediadau Gwobr Dug Caeredin yng Nghymru.
- Diolchodd y Cadeirydd i'r holl staff a fu'n brysur yn rhan o drefniadau cynnal etholiad Senedd Cymru yn etholaeth Bangor Conwy Môn yr wythnos diwethaf. Bu'r Cadeirydd longyfarch y chwe ymgeisydd llwyddiannus a dymuno'n dda iddynt yn eu rolau newydd.

* * * * *

Dymunwyd yn dda i'r Cyngorydd Jeff Evans a'i deulu gan fod ei ferch wedi derbyn llawdriniaeth sylweddol yn Lerpwl yn ddiweddar.

Dymunwyd yn dda i Mrs Nia Owen, gwraig cyn Arweinydd y Cyngor, Mr Bryan Owen, sy'n dod dros llawdriniaeth diweddar.

* * * * *

Cydymdeimlwyd â theulu Mrs Gladys Pritchard o Gaergybi a fu farw'n ddiweddar. Gweithiodd Mrs Pritchard yn galed i hyrwyddo'r Gymraeg ar yr Ynys ac roedd yn weithgar iawn yn ei chymuned. Cafodd ei derbyn i'r Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2005.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu a ffrindiau y cyn gyngorydd, Mr Eric Jones o Llanfihangel Esceifiog.

Bu'r Cyngorydd Aled Morris Jones a'r cyngorydd Carwyn Jones dalu teyrnged i Eric Jones a chyfeirio at y ffaith iddo gael ei ethol i'r Cyngor yn 2007 ac iddo wasanaethu ar Gyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog am 30 mlynedd. Gweithiodd hefyd i Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn yn yr Adran Drethi am dros 25 mlynedd a roedd yn Arweinydd Ieuencid mewn Clybiau Ieuencid ar yr Ynys.

Cydymdeimlwyd â theulu Mr Gwyn Owen o'r Fali a oedd yn un o sylfaenwyr MônFM ac yn un o'r darlledwyr rheolaidd ar yr ORsaf Radio.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw aelod etholedig neu aelod o staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

4. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cyngorydd Neville Evans : -

“Rwy’n galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i gydnabod Ynys Môn fel Sir sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg fel a nodir yn adroddiad Comisiwn y Cymunedau Cymraeg a gadeiriwyd gan Dr Simon Brooks.

Gyda Llywodraeth newydd yn cychwyn ar ei gwaith ym Mae Caerdydd, galwaf ar Gyngor Sir Ynys Môn i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru ac i annog gweithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg er mwyn atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith fyw o fewn ein cymunedau yma ar yr ynys.’

Dywedodd y Cyngorydd Neville Evans bod y Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud argymhellion a fyddai'n cryfhau cymunedau Cymraeg a bod adroddiad yn cynnwys 57 o argymhellion wedi'i gyhoeddi yn 2024. Roedd yn ei ystyried yn fraith o fod wedi'i fagu yn Gymraeg yng nghymuned Bryngwran. Nododd fod dirywiad wedi'i weld mewn siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lleol dros y 30 mlynedd diwethaf yn ogystal â defnydd o'r Gymraeg o fewn y cymunedau hynny. Dywedodd y Cyngorydd Evans fod yr iaith Gymraeg angen ei gwarchod ac y dylid annog a chefnogi pobl i ddefnyddio'r iaith. Dywedodd fod adroddiad Dr Simon Brookes yn fanwl ac yn gynhwysfawr ac yn awgrymu ffyrdd o ddatblygu'r Gymraeg. Cyfeiriodd y Cyngorydd Evans hefyd at yr angen i ddiogelu enwau Cymraeg ar eiddo.

Bu'r Arweinydd eilio'r Cynnig gan ddweud ei fod yn amserol wrth i Eisteddfod yr Urdd gael ei chynnal ar yr Ynys ddiwedd Mai. Dywedodd ei fod yn mynychu sesiynau dysgu Cymraeg o fewn ei gymuned a'i bod yn galonogol gweld fod pobl yn frwdfrydig dros ddysgu Cymraeg. Dywedodd hefyd fod Ynys Môn yn un o ddwy Sir sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg gan fod 70% o blant rhwng 3 a 15 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg fel rhan bwysig o Gynllun y Cyngor. Mae gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn rhoi arweiniad clir ac yn pwysleisio mai'r camau allweddol cyntaf yw hyrwyddo'r Gymraeg a chreu platfform o bolisiau ystyrlon. Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud y bydd angen gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn adroddiad y Comisiwn.

Nododd y Cyngorydd Kenneth P Hughes ei fod yn cefnogi'r Cynnig ac unrhyw ddull arall o ddatblygu'r Gymraeg o fewn cymunedau lleol. Dywedodd ei fod yn bwysig sicrhau cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ar yr Ynys gan fod gormod ohonynt yn gorfod gadael yr Ynys i ddod o hyd i waith.

Cytunodd y Cynghorydd Aled Morris Jones â'i gyd-aelod gan ddweud y byddai cyfleoedd cyflogaeth a chadw pobl ifanc ar yr Ynys yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg. Nododd, gyda safle'r Wylfa yn cael ei adnabod ar gyfer lleoli tri SMR, y bydd yn creu cyfleoedd cyflogaeth tra bo potensial am fwy o SMR's ar y safle.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynnig i alw ar Gyngor Sir Ynys Môn i gydnabod Ynys Môn fel Sir sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg fel a nodir yn adroddiad Comisiwn y Cymunedau Cymraeg a gadeiriwyd gan Dr Simon Brooks. Gyda Llywodraeth newydd yn cychwyn ar ei gwaith ym Mae Caerdydd, galwodd ar Gyngor Sir Ynys Môn i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru ac i annog gweithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg er mwyn atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith fyw o fewn ein cymunedau yma ar yr ynys.'

5. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2025/26

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Cyflwynodd yr Arweinydd ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/2026 a nododd ei bod yn flwyddyn bwysig a chyffrous ar gyfer cyflawni potensial a chyfleoedd economaidd newydd ar yr Ynys gyda'r cyhoeddiad ym mis Tachwedd mai safle Wylfa fyddai'r safle cyntaf ym Mhrydain i gael adweithyddion SMR. Nododd fod hyn yn ganlyniad i lobïo traws bleidiol gan Aelodau Seneddol, Aelodau'r Senedd ac Aelodau'r Awdurdod hwn. Mae gwaith bellach wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn sicrhau bod buddion y datblygiad arfaethedig yn cyrraedd pobl Môn ac mae'n bwysig bod llwybrau sgiliau yn cael eu creu ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth. Dywedodd ei fod yn bleser arwyddo cytundeb cydweithio ffurfiol â Great British Nuclear fis diwethaf. Ym mis Mawrth, cafodd carreg filltir bwysig ei chyrraedd gyda Porthladd Rhydd Ynys Môn wrth arwyddo Memorandwm o ddealltwriaeth efo Llywodraeth y DU a Llywodraeth cymru er mwyn rhyddhau'r cyllid cychwynnol o £25 miliwn a fydd yn galluogi'r Porthladd Rhydd i symud ymlaen i fod yn weithredol erbyn Gwanwyn 2026. Gall y Cyngor a phartneriaid eraill fwrw ymlaen â chynlluniau sy'n cryfhau rôl yr Ynys mewn meysydd megis ynni, gweithgynhyrchu a masnach er mwyn hyrwyddo ffyniant hirdymor ar Ynys Môn ac yng ngogledd Cymru. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn dymuno diolch i staff yr Adran Datblygiad Economaidd am eu gwaith o sicrhau'r buddsoddiad o £10.4 miliwn drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn cefnogi twf economaidd yn ardal Amlwch a hynny drwy adnewyddu'r Adeilad Morwrol ym mhorth Amlwch ac adeiladu 10 uned fusnes ar Stad Ddiwydiannol Amlwch. Mae sicrhau bod yr economi yn ffynnu a darparu safon uchel o gyfleoedd cyflogaeth yn hanfodol er mwyn helpu busnesau lleol i fanteisio ar gyfleoedd ac i helpu pobl ifanc i aros ar yr Ynys.

Nododd yr Arweinydd ei fod yn croesawu canfyddiadau'r arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod eu

hymweliad yn 2026 fe wnaethant adolygu'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a chanlyniad hynny oedd iddynt ddarganfod bod plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi gan dîm gofalggar, medrus ac ymroddedig a bod nifer o enghreifftiau o arfer dda. Cafodd Gwasanaeth Maethu Môn hefyd ei archwilio gyda'r Archwilwyr yn amlygu bod gan blant mewn gofal sefydlogrwydd a'u bod yn derbyn cefnogaeth i allu meithrin perthnasau cadarnhaol efo Gofalwyr Maeth. Cafwyd canmolïaeth hefyd i'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drawma, yr oruchwyliaeth barhaus a'r rhwydweithiau cefnogi sydd gan Ofalwyr Maeth. Diolchodd yr Arweinydd i'r Gofalwyr Maeth am eu gwaith wrth ofalu am blant a phobl ifanc Ynys Môn.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at nifer o Wobrau a dderbyniwyd gan y Cyngor fel y nodwyd yn ei adroddiad. Cyfeiriodd at ymrwymiad a gwaith caled staff y Cyngor er budd trigolion Ynys Môn.

Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Arweinydd am ei adroddiad a nododd fod gweithwyr yn parhau i gael eu cyflogi yn safle'r Wylfa ac mewn safleoedd digomisiynu eraill ar draws y DU. Cyfeiriodd at y buddsoddiad yng ngogledd Ynys Môn a nododd fod angen cydnabod cefnogaeth yr NDA i'r prosiectau hyn. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn derbyn fod yr NDA yn bartner allweddol yng ngogledd yr Ynys ac ar draws Ynys Môn a'i fod yn ymwybodol fod nifer o bobl yn dal i gael eu cyflogi yn safle Wylfa.

Aeth y Cynghorydd Aled Morris Jones ymlaen i godi fod plant i weld yn cael eu ceisiadau i gofrestru gydag ysgolion yr oeddent yn ffafrio wedi eu gwrthod a cyfeiriodd at achos penodol yn ei Ward. Nododd fod yr ysgol a'r Llywodraethwyr yn fodlon derbyn disgyblion ychwanegol i'r ysgol. Nododd fod yr argyfwng costau byw yn cynyddu'r pwysau ar rieni yn gorfod teithio ymhellach i fynd â'i plant i'r ysgol. Ymatebodd yr Aelod Portffolio Addysg ac iaith Gymraeg fod gan bob ysgol unigol 'nifer a dderbynnir' o blant ym mhob ysgol. Nododd fod proses apelio yn bodoli os yw rhieni yn anghytuno ag unrhyw benderfyniad. Ymatebodd y Cynghorydd Aled Morris Jones nad oedd hawl apelio gydag achosion meithrin. Nododd y Prif Weithredwr bod rheoliadau sy'n rhaid i'r Awdurdod Addysg eu dilyn ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn y man mewn perthynas â'r achos penodol yr oedd yr Aelod yn cyfeirio ato. Nododd yr Arweinydd ei fod yn rhannu rhwystredigaeth rhieni o ran y niferoedd y caniateir i ysgolion eu derbyn a bod lobio wedi digwydd efo Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio eu cael i adolygu'r polisïau presennol.

7. YMGYNGHORIAD ARDOLL YMWELWYR

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro os oedd gan unrhyw un ddiddordeb personol yn yr eitem hon, bod angen iddynt ddatgan diddordeb gan mai'r mater gerbron y Cyngor yw penderfynu a yw'r Awdurdod yn mynd allan i ymgynghori ar gyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn. Os yw'r Cyngor yn penderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori gyhoeddus a bod adborth ymgynghoriad o'r fath yn cael ei adrodd yn ôl arno i'r Cyngor am benderfyniad terfynol, bydd y diddordeb personol yn newid i fod yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Dywedodd ymhellach os oes unrhyw Aelod yn ystyried bod ganddynt ddiddordeb personol y dylent gysylltu â'r Adran Gyfreithiol er mwyn gwneud cais i'r

Pwyllgor Safonau am ganiatâd arbennig a allai alluogi Aelodau i gymryd rhan mewn trafodaethau.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro na ddylai fynegi eu barn ar yr ardoll ymwelwyr yn ystod y Pwyllgor hwn gan mai'r eitem sydd gerbron yw ystyried a ddylai'r Cyngor gynnal proses ymgynghori gyhoeddus.

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth ac Eiddo, y Cynghorydd Alun Roberts na fyddai'n cyflwyno'r eitem gan y bydd y datgan diddordeb personol gan fod aelod agos o'i deulu yn cael ei gyflogi yn y sector twristiaeth, na fyddai'n cymryd rhan yn y drafodaeth ac y byddai'n atal ei bleidlais. Dywedodd mai'r Arweinydd fyddai'n cyflwyno'r eitem i'r Cyngor.

Bu'r cynghorwyr Celfyn Furlong, Douglas Fowlie a Derek Owen ddatgan diddordeb personol yn yr eitem. Fe wnaeth Mr Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ddatgan diddordeb personol.

Nododd yr Arweinydd fod yr adroddiad a gyflwynir gerbron y Cyngor er mwyn penderfynu a ddylid cynnal proses ymgynghori gyhoeddus o ran cyflwyno ardoll ymwelwyr ar gyfer pobl sy'n aros mewn llety gwyliau yng Nghymru. Nododd mai nod yr ymgynghoriad yw gwahodd barn ar yr ardoll arfaethedig gan drigolion, busnesau lleol, ymwelwyr a sefydliadau partner. Bydd yn ceisio cael gwell ddealltwriaeth o farn leol, effeithiau posibl ac unrhyw bryderon cyn ystyried unrhyw benderfyniad posibl. Dywedodd ei fod wedi cael nifer o drafodaethau â'r sector twristiaeth a busnesau eraill am effaith yr ardoll ymwelwyr. Aeth yr arweinydd ymlaen i ddweud fod Cynghorau cyfagos Gwynedd a Chonwy yn bwriadu ymgymryd â phroses ymgynghori a bod Ynys Môn yn ystyried ei bod yn synhwyrol cydweithio â'r Cynghorau hynny o ran camau ac amserlen, er y byddai pob Cyngor yn cynnal ei ymgynghoriad unigol, annibynnol.

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones am ymatebion gan y diwydiant twristiaeth i Lywodraeth Cymru ac a oedd y broses ymgynghori yn angenrheidiol a'r costau cysylltiedig. Nododd, petai ardoll yn cael ei gyflwyno y byddai'n faich gweinyddol ar fusnesau. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, Busnes y Cyngor a Phrofiad y Cwsmer fod prosesau ymgynghori cyhoeddus yn cael eu gwneud ar-lein yn bennaf ac mai costau cyfyngedig oedd yn gysylltiedig â hynny.

Roedd Aelodau'r Grŵp arweiniol yn ystyried fod gan drigolion a busnesau ar yr Ynys yr hawl i fynegi barn ar yr ardoll ymwelwyr.

Nododd y Cynghorydd Kenneth P Hughes nad oedd yn erbyn y broses ymgynghori a nododd ei bod hi'n bwysig gwrandao ar farn trigolion Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Glyn Haynes ei fod yn cefnogi'r broses ymgynghori ar yr ardoll ymwelwyr ond y dylai gwybodaeth am sut y bydd yr arian yn cael ei chasglu gael ei chynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad.

Holodd y Cynghorydd Aled Morris Jones a fyddai cynnwys bwriad arfaethedig yr ardoll yn rhagfarnu'r broses ymgynghori. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro petai'r Cyngor yn penderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori ac yn yn dilyn hynny bod proses o gyflwyno ardoll ymwelwyr yn digwydd y byddai mesurau statudol yn cyfyngu ar y defnydd o'r arian a gesglir gan yr ardoll. Bydd y broses ymgynghori bellach yn nodi sut y gallai'r Cyngor wario'r ardoll a gesglir ond ni fydd yn cyfeirio at brosiectau penodol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Atodiad A yr adroddiad sy'n cyfeirio at 'Ddisgwyliadau Ymgynghori Llety Ymwelwyr' ac sy'n cyfeirio at sut y gellir buddsoddi'r ardoll a'i fod yn ofyniad, fel rhan o'r ymgynghoriad, i alluogi pobl i allu gwneud penderfyniadau gwybodus a chyfrannu'n effeithiol o safbwynt busnesau, trigolion a chymunedau lleol.

Yn dilyn y bleidlais o 27 o blaid, 3 yn erbyn ac 1 yn atal

PENDERFYNWYD cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn (yn unol â chanllawiau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru).

8. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD, yn unfrydol, ethol y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn Gadeirydd ar Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2026/2027.

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, sicrhodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas y Cyngor y byddai'n ceisio cyflawni ei dyletswyddau fel Cadeirydd hyd eithaf ei allu. Diolchodd i'w ragflaenydd, y Cynghorydd Non Dafydd, am gyflawni ei dyletswyddau fel Cadeirydd y Cyngor Sir mor urddasol ac anrhydeddus a chyflwynodd rodd iddi i gydnabod ei gwasanaeth.

Diolchodd y cyn-Gadeirydd, y Cynghorydd Non Dafydd, i'r Aelodau a Swyddogion am eu cefnogaeth. Cyfeiriodd at y llu o ddigwyddiadau y bu iddi eu mynychu a'r fraint o gynrychioli'r Cyngor Sir yn y digwyddiadau hynny. Cyfeiriodd y Cynghorydd Non Dafydd at yr her bersonol a osododd i'w hun fel Cadeirydd sef cerdded 130 milltir o amgylch yr Ynys dros gyfnod o ychydig wythnosau a diolchodd i Aelodau a'r rhai oedd wedi'i chefnogi a'r cyfraniadau hael tuag at yr elusen yr oedd wedi'i ddewis sef RASASC Gogledd Cymru. Mae RASASC yn cefnogi dynion, merched a phlant sydd wedi dioddef trais. Cyfeiriodd hefyd at Wasanaeth Sul y Cadeirydd yn Eglwys Llanbadrig ar 15 Mawrth, 2025. Roedd am ddiolch i staff y Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth yn ystod ei thymor fel Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn.

9. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD, yn unfrydol, ethol y Cynghorydd Jackie Lewis yn Is-gadeirydd ar Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2026/2027.

10. AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 o'r Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd yr Aelodau canlynol a ddewiswyd ganddo i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-

Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) gyda chyfrifoldeb Portffolio am Ddatblygu Economaidd;

Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) gyda chyfrifoldeb Portffolio am Gyllid, Busnes y Cyngor a Phrofiad y Cwsmer.

Y Cynghorydd Neville Evans gyda chyfrifoldeb Portffolio am Wasanaethau Oedolion,

Y Cynghorydd Carwyn Jones gyda chyfrifoldeb Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol,

Y Cynghorydd Dyfed W Jones gyda chyfrifoldeb Portffolio am Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd;

Y Cynghorydd Alun Roberts gyda chyfrifoldeb Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo,

Y Cynghorydd Dafydd Roberts gyda chyfrifoldeb Portffolio am Addysg a'r Gymraeg;

Y Cynghorydd Nicola Roberts gyda chyfrifoldeb Portffolio am Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Y Cynghorydd Ieuan Williams gyda chyfrifoldeb Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd,

11. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Yn unol â Rhan 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad, **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Keith Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

12. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Yn unol â Rhan 3.2 o'r Cyfansoddiad, **PENDERFYNWYD** cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor yw cytuno arno.

13. CADARNHAU PWYLLGORAU

PENDERFYNWYD ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau;
- Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS);
- Is-bwyllgor Indemniadau

14. RHAGLEN CYFARFODYDD CYFFREDINOL Y CYNGOR SIR AR GYFER 2026/27

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor Sir am y flwyddyn nesaf: -

- 24 Medi, 2026 - 1.00 pm
- 8 Rhagfyr, 2026 - 1.00 pm
- 4 Mawrth, 2027 - 1.00 pm
- Mai 2026 (Cyfarfod Blynnyddol) – dyddiad i'w gadarnhau

15. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL PWYLLGORAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth ynglŷn â threfniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor i'w ystyried.

PENDERFYNWYD:-

- Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi a ddyrennir i bob Grŵp o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
- Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd os bydd unrhyw newid o ran aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.

16. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â phenodi cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol.

PENDERFYNWYD cytuno a chadarnhau'r penodiadau fel y nodir yn yr atodlen i'r adroddiad.

17. COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas ag Adroddiad Blynnyddol 2026/2027 y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i'w ystyried.

PENDERFYNWYD:-

- Derbynnu penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2026-27;
- Cadarnhau y bydd deiliaid yr un swyddi â 2025-26 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2026-27, sef:-

Cadeirydd y Cyngor;
Is-gadeirydd y Cyngor;
Arweinydd y Cyngor;
Dirprwy Arweinydd y Cyngor;

**Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7);
Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf;
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2);
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**Awdurdodi Swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cynllun
Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau) er mwyn adlewyrchu'r penderfyniadau
a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2026/27.**

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD
(Eitemau 1 i 7)**

**Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS
(Eitemau 8 i 17)**